



# GWASG PRIFYSGOL CYMRU UNIVERSITY OF WALES PRESS

Cofrestrfa'r Brifysgol, Heol Brenin Edward VII, Caerdydd, CF10 3NS [gwasg@gwasg.cymru.ac.uk](mailto:gwasg@gwasg.cymru.ac.uk) [www.gwasgprifysgolcymru.org](http://www.gwasgprifysgolcymru.org)  
University Registry, King Edward VII Avenue, Cardiff, CF10 3NS [press@press.wales.ac.uk](mailto:press@press.wales.ac.uk) [www.uwp.co.uk](http://www.uwp.co.uk)

☎ 44 (0) 29 20376999

Annwyl bawb,

Yn y cyfnod digynsail hwn, mae Covid-19 yn effeithio arnom i gyd. Mae Gwasg Prifysgol Cymru yn cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu ein staff a chwsmeriaid, ac i sicrhau bod busnes yn parhau fel arfer cymaint ag sy'n bosib.

Mae'r trefniadau er mwyn i'n tîm allu gweithio o adref wedi bod yn cael eu gwneud dros yr wythnos ddiwethaf, ac o heddiw ymlaen bydd ein adeilad ar gau a bydd ein gwaith i gyd yn cael ei wneud o adref.

### Cysylltu â ni

Bydd ein cyfeiriadau e-bost uniongyrchol, cyfrif e-bost cyffredinol y Wasg, ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol mor fyw ag erioed. Os ydych arfer cysylltu â ni dros y ffôn, mae'n bosib na fydd rhai galwadau yn cael eu hateb yn syth. Gallwch adael neges a byddwn yn gwneud ein gorau i ddychwelyd eich galwad yr un diwrnod, os yn bosib, neu cysylltwch drwy'r dulliau amgen uchod.

Bydd post yn ein cyrraedd, ond gall fod oedi cyn y gallwn ateb. Byddwn yn gwerthfawrogi felly pe gallech anfon unrhyw lythron trwy e-bost, os yn bosib. Os nad oes gennych gyswllt uniongyrchol yn y Wasg, e-bostiwch ni ar [gwasg@gwasg.cymru.ac.uk](mailto:gwasg@gwasg.cymru.ac.uk)

### Cyhoeddiadau newydd

Rydym yn parhau i gomisiynu teitlau newydd ac i groesawu ceisiadau newydd fel arfer.

Rydym mewn cysylltiad agos a chyson gyda ein rhwydwaith eang o bartneriaid a chyflenwyr i sicrhau eu bod yn cadw'n ddiogel, ac yn parhau a'u busnesau a'u cynlluniau eu hunain cymaint ag sy'n bosib. Mae hynny'n cynnwys ein golygyddion ac argraffwyr allanol, y warws, dosbarthwyr, siopau llyfrau ac yn y blaen.

Ar hyn o bryd nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw oedi mewn cyhoeddi llyfrau a chyfnodolion newydd, ac mae ein tимоedd mewnol ac allanol yn parhau i weithio mor galed ag erioed i gyrraedd y dyddiadau cyhoeddi disgwylidig. Mae ein partneriaid dosbarthu yn parhau i weithredu ac yn anfon stoc allan at ein darllenwyr a chwsmeriaid gorau ag y gallant.

Serch hynny, mae hwn yn gyfnod ansicr iawn sy'n newid o ddydd i ddydd. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein hawduron a'n cwsmeriaid i gyd yn cael eu hysbysu o unrhyw effeithiau posib ar ein gallu i gwrdd ag amserlenni cyhoeddi ar y cyfle cyntaf posib.

Os hoffech drafod lyfr neu erthygl mewn cyfnodolyn rydych wedi'i ysgrifennu sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd, peidiwch oedi rhag cysylltu.

### Digwyddiadau a chynhadleddau

Roedd GPC wedi bwriadu cymryd rhan mewn digwyddiadau a chynhadleddau trwy gydol y gwanwyn a'r haf, ond mae'r mwyafrif o'r rhain bellach wedi eu gohirio. Mae'r achlysuron hyn yn gyfle gwych i ni gysylltu gyda'n cymuned academiaidd ac i werthu ein llyfrau.

Cadwch mewn cysylltiad trwy ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol, trwy ymweld â'n gwefan, neu trwy gysylltu gyda'n cydweithwyr yn y Wasg. Os hoffech brynu ein llyfrau, gallwch ddilyn y dolenni hyn:

<https://www.gwasgprifysgolcymru.org/>

<https://twitter.com/GwasgPrifCymru>

<https://www.facebook.com/gwasgprifysgol.cymru>

<http://www.uwp.co.uk/>


<https://twitter.com/UniWalesPress>

<https://www.facebook.com/UniversityofWalesPress/>

<https://www.uwp.co.uk/gostyngiad-discount/>

Diolch am eich cefnogaeth barhaol a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn. Rydym yn gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel, ac edrychwn ymlaen at gadw mewn cysylltiad dros y misoedd sydd i ddod.

Gyda ein dymuniadau gorau,



Natalie Williams  
Cyfarwyddwr, Gwasg Prifysgol Cymru